


LLAWLYFR DIOGELWCH TWNELI
TUNNEL SAFETY GUIDE

TRAFFYRDD A CHEFNFFYRDD
YNG NGHYMRU

MOTORWAY & TRUNK ROAD
TUNNELS IN WALES

Twnnel Pen-y-Clip
Twnnel Pentir Penmaenbach
Twnnel Penmaenbach
Twnnel Conwy



Twnnel Gibraltar

Twnnel Brynglas

DIOGELWCH TWNELI

Os yw eich siwrnai yn mynd a chi drwy un o chwe thwnnel Traffyrd a Chefnffyrdd Cymru, mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth i'w wneud pe byddech mewn digwyddiad neu ddamwain.

Fel arfer, nid yw teithio drwy dwnnel yn peri unrhyw berygl. Er hynny, pe bai digwyddiad, oherwyd natur gaeedig twunnel, bydd angen i chi dalu sylw penodol i'ch diogelwch eich hunan, eich teithwyr a defnyddwyr eraill y twunnel.

Mae twneli yn rhoi sialensiau ychwanegol i'r cyhoedd ac i'r gwasanaethau argyfwng pe byddai unrhyw ddigwyddiad. Datblygwyd nifer o nodweddion a gweithdrefnau diogelwch i helpu'r cyhoedd i adael y twunnel yn ddiogel neu i ganiatáu mynediad i'r gwasanaethau argyfwng i reoli unrhyw ddigwyddiad.

Mae'r daflen hon yn rhoi cyngor i chi ynglŷn â sut i osgoi bod yn rhan o ddigwyddiad mewn twunnel a sut i edrych ar ôl eich diogelwch eich hun a diogelwch eraill.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch gyrru'n ddiogel mewn twneli ffordd yn <https://traffig.cymru>

BETH I'W WNEUD CYN I MEWN MYND I MEWN I DWNNEL



Sylwch ar yr holl gyfyngiadau cyflymder ar y lonydd dynesu ac wrth i chi fynd drwy'r twunnel – gwylwch, gall y rhain newid.



Gwiriwch fod gennych ddigon o danwydd ar gyfer eich siwrnai.



Sylwch ar yr arwyddion a signalau gan ufuddhau iddynt – Peidiwch byth a defnyddio lôn sy'n dangos croes goch.




Gostyngwch eich prif oleuadau. Tynnwch eich sbectol haul i ffwrdd os ydych yn gwisgo un.



Os oes mwg neu dân o'ch blaen yn y twunnel, peidiwch â mynd i mewn. Tynnwch i mewn i'r lôn ar yr ochr chwith, stopiwch a rhowch eich goleuadau rhybudd ymlaen.

CYFLEUSTERAU DIOGELWCH NODWEDDIADOL YN Y TWNELI



GALL MWG A THÂN LADD.
ARBEDWCH EICH BYWYD, NID EICH CERBYD.



GOLEUADAU'R TWNNEL

Goleuadau i wella gwelededd y tu fewn i'r twunnel.



OFFER DIFFODD TÂN

Mae gan y paneli argyfwng offer diffodd tân.



TELEDU CYLCH CYFYNG

Mae'r system Teledu Cylch Cyfyng yno i helpu Canolfannau Rheoli Traffig i fonitro beth sy'n digwydd yn y twunnel ac i ganfod unrhyw ddigwyddiadau.



PANELI ARGYFWNG (SOS)

Mae gan y paneli argyfwng arwyddion wedi'u goleuo, offer diffodd tân a theleffonau SOS rhad ac am ddim sydd wedi'u cysylltu gyda'r Canolfan Rheoli Traffig.



ARWYDDION RHEOLI LONYDD

Yn dangos pa lonydd sydd yn agored neu wedi'u cau. Sylwch arnynt gan ufuddhau iddynt bob amser.



SYSTEMAU AWYRU

I glirio llygredd a rheoli gwres a mwg i helpu gyda gwagu'r twunnel pan fo tân.



DYNODWYR LLWYBR

Yn dangos cyfeiriad a'r pellter i allanfeydd argyfwng i gerddwyr o'r twunnel.



Y SYSTEM P.A.

Lleolir cyrn sain drwy'r twunnel. Os oes unrhyw ddigwyddiad, gwrandwch ar unrhyw gyhoeddiadau a dilynwch yr holl gyfarwyddiadau a roddir.



DRYSAU MYNEDIAD ARGYFWNG

Gosodwyd drysau mynediad argyfwng mewn rhai twneli i ganiatáu mynediad i'r gwasanaethau argyfwng o'r rhan o'r twunnel sydd heb ei effeithio. Ble fo'n bosib dylid gwacau'r twunnel drwy byrth y twunnel.

BETH I'W WNEUD WRTH DEITHIO TRWY DWNNEL



Peidiwch â stopio oni bai bod argyfwng.



Cadwch bellter diogel rhyngoch chi a'r cerbyd o'ch blaen. Dylai cerbydau adael bwlch o leiaf 2 eiliad a dylai cerbyd nwyddau mawr adael bwlch sydd yn o leiaf 4 eiliad.



Peidiwch â throï neu facio eich car oni bai bod Swyddog o'r Heddlu neu Swyddog Traffig yn eich cyfarwyddo i wneud hynny.



Peidiwch â thafu sigarennau o fewn cyfyngiadau'r twunnel.

BETH I'W WNEUD MEWN TAGFEYDD



Cadwch eich pellter, hyd yn oed os ydych yn symud yn araf neu wedi stopio - gadwch 5 metr rhyngoch chi a'r cerbyd o'ch blaen. (hyd gar ar gyfartaledd)



Diffoddwch eich injan os ydych yn sefyll am hirach nac un munud.



Rhowch eich goleuadau rhybudd ymlaen wrth gyrraedd tagfeydd yn unol â'r Cod Gefnffordd.



Gwrandwch ar negeseuon dros y system p.a. gan ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir gan weithredwr y twunnel.

BETH I'W WNEUD OS YDYCH YN TORRI I LAWYR NEU MEWN GWRTHDRAWIAD



Rhowch y goleuadau rhybudd ymlaen.



Stopiwch eich cerbyd mor agos i'r ochr chwith â phosib a diffoddwch yr injan. Gadwch y gorïad tanio yn yr agoriad tanio.



Byddwch yn ymwybodol o'r traffig sy'n dod o'r blaen neu'r cefn. Os yn bosib, ewch allan o'ch cerbyd drwy'r drws ar yr ochr chwith. Dylai eich teithwyr wneud hyn hefyd. Os nad ydych yn gallu mynd allan o'ch cerbyd am unrhyw reswm ffoniwch 999. Mae'r twneli yn cael eu monitro yn agos a byddwn yn darparu cymorth cyn gynted â phosib.



Galwch am gymorth o ffôn yn y manau SOS argyfwng a leolir bob 100 metr ar hyd y twunnel. Byddwch yn ymwybodol o gerbydau eraill. PEIDIWCH â chroesi'r ffordd gerbydau.



Gwrandwch ar negeseuon dros y system p.a. gan ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir gan weithredwr y twunnel.



Peidiwch â cheisio gwneud unrhyw waith trwsio yn y twunnel.

BETH I'W WNEUD OS YW CERBYD AR DÂN



Os oes mwg neu dân o flaen chi ar y ffordd i mewn i'r twunnel, peidiwch â mynd i mewn iddo. Tynnwch i mewn i'r lôn ar y chwith, stopiwch a rhowch eich goleuadau rhybudd ymlaen.



Os ydych chi wedi mynd i mewn i'r twunnel a bod mwg neu dân o'ch blaen, dylech dynnu i mewn i'r ochr chwith a stopio. Diffoddwch yr injan, gadwch y gorïadau yn yr agoriad tanio ac ewch allan o'r cerbyd. Gadwch y twunnel ar droed gan ddilyn y llwybr gwacau tuag at borth y twunnel y gwnaethoch yrru drwyddo i ddod i mewn i'r twunnel. Unwaith y byddwch y tu allan i'r twunnel, arhoswch ger y man gwacáu wedi'i arwyddo i gael mwy o gymorth.



Os ydych yn gweld mwg neu dân tu ôl i chi unwaith y byddwch yn y twunnel, parhewch i yrru allan o'r twunnel a pheidiwch â mynd i mewn iddo eto.



Os yw eich cerbyd ar dân gyrrwch allan o'r twunnel os yn bosib. Os nad yw hyn yn bosib, yna tynnwch i mewn i'r lôn ar y chwith, a diffodd yr injan.



Gadwch y gorïad yn yr agoriad tanio rhag ofn y bydd angen i'r gwasanaethau argyfwng symud eich cerbyd. Gadwch y cerbyd ar unwaith. Gadwch y twunnel gan ddilyn y llwybr gadael wedi ei arwyddo tuag at borth agosaf y twunnel. Unwaith y byddwch y tu allan i'r twunnel, arhoswch ger y man gwacáu wedi'i arwyddo i gael cymorth.



Galwch am gymorth o'r ffôn SOS a leolir yn y pwynt gwacáu y tu allan i'r twunnel.



Gwrandwch ar unrhyw negeseuon dros y system p.a. gan ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir gan weithredwr y twunnel.



Mae offer diffodd tân ger bob panel argyfwng yn y twneli.

FFONIWCH LINELL WYBODAETH TRAFFIG CYMRU



0300 123 1213



@TraffigCymruG



@TraffigCymruD